

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

### 12fed MEDI 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

**1. Presennol** - Ceri Owen (Cad), Barry Bracegirdle, Justin Davies, Dylan Herbert (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Siân Dafydd, Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Ffion Jones (Nantlle), Dafydd Thomas (Nebo), Cyng. Peter Thomas.

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Ymddiheuriadau** –derbyniwyd ymddiheuriadau gan Judith Humphreys ac Erfyl Williams (Penygroes) a ddim yn bresennol oedd Peter Bridges (Talysarn).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen a rhoddwyd croeso yn nôl i Dafydd Thomas (Nebo) sydd wedi bod i ffwrdd dros gyfnod o amser oherwydd salwch - braf iawn ei weld yn nôl ac yn gwella.

**2. Datgan Buddiant** – Justin Davies a Gareth Jones yn datgan buddiant yn nhrefodaeth Tir Cwtin (pwynt 3 ar yr agenda) – nododd y gadeiryddes nad oedd am ofyn iddynt adael y cyfarfod ond pwysleisiodd nad oeddynt i roi unrhyw farn ar y mater dan sylw yn ystod y drafodaeth.

**3. Tir Cwtin** - diolchodd y gadeiryddes i'r Orsaf a Phwyllgor Cwtin am eu gwaith yn paratoi cynlluniau ar gyfer y darn tir Cwtin. Roedd pawb wedi cael cyfle i edrych dros y dogfennau a oedd wedi eu derbyn. Gofynnwyd yn garedig pe bai pawb yn gyrru yn uniongyrchol i'r clerc yn hytrach nag yn unigol i'r cynghorwyr o hyn ymlaen a buasai'r clerc yn pasio popeth ymlaen. Adroddwyd bod rhai o'r cynghorwyr cymuned wedi cael eu targedu pan allan yn gyhoeddus oherwydd yr achos hwn a hynny gan aelodau o'r cyhoedd a oedd un ai yn cefnogi'r Orsaf neu Bwyllgor Cwtin. Teimlai'r cynghorwyr nad oedd hyn yn deg a bod yn bwysig i bobl gofio mai gwirfoddolwyr yw pawb ar y bwrdd ac nad oes neb yn derbyn tâl am y gwaith maent yn ei wneud dros y gymuned. Teimlad oedd nad oes digon o ymgynghoriad wedi bod ynglŷn â'r mater hyn gyda phobl Penygroes yn ei gyfanrwydd a chynigwyd i gynnal ymgynghoriad i bobl Penygroes yn y Neuadd Goffa a rhoi cyfle i'r ddwy ochr roi cyflwyniad ac yna i'r cyhoedd roi eu barn. Derbyniwyd y cynnig hwn ac eiliwyd gan gynnig ei gynnal ar 27ain Medi 2023. Ategodd Pwyllgor Cwtin eu bod o dan yr argraff bod penderfyniad yn mynd i gael ei wneud heno am y mater hwn ar teimlad oedd nad yw yn iawn i wneud iddynt sefyll o flaen pobl y pentref i roi cyflwyniad ac mai'r Cyngor Cymuned ddylai wneud y penderfyniad. Gofynnwyd gan Bwyllgor Cwtin os oedd y Cyngor wedi ystyried y 450 o bobl sydd wedi arwyddo deiseb i gadw'r cae fel lle cyhoeddus. Nid oedd y dyddiad 27 Medi yn gyfleus i'r Orsaf nac Pwyllgor Cwtin ac felly gofynnwyd i'r ddwy ochr ddod yn nôl at y Cyngor gyda dyddiadau a fuasai yn iawn iddynt. Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bu i aelodau o'r cyhoedd adael.

**4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 11eg Gorffennaf 2023** - cywiriadau i'w gwneud i'r cofnodion oedd tynnu enw aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Hefyd awgrymwyd y dylid nodi'r awgrymiadau a wnaed gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r Hwb Iechyd. Y clerc i wneud y cywiriadau hyn cyn rhoi'r cofnodion ar wefan y Cyngor Cymuned.

**5. Materion yn codi o'r cyn cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - **Llwybr rhif 116 Ffordd Haearn Bach** - roedd pris wedi ei dderbyn i dorri'r llwybr yn nôl yn llydan gan y contractwyr torri llwybrau. Roedd y pris yn £1050 + TAW. Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i beidio â gwneud y gwaith hwn ond pwysleisio wrth y contractwyr i'w dorri fel bod llwybr troed clir yno. **Cwt Gorffwysfa** - dal i ddisgwyl am brisiau am y gwaith hwn - pwysig i'w cael erbyn y cyfarfod nesaf. **Cwningod ym Mynwent Gorffwysfa Llanllyfni** - adroddwyd bod y gwaith o waredu ar gwningod wedi ei wneud. **Safleoedd Bysiau Penygroes** - diolchwyd yn fawr am sortio i gael y gwaith o drwsio'r safleoedd bysiau wedi ei wneud. Angen holi Cyngor Gwynedd sut mae cael mynediad i'r CCTV i weld os yw'r safleoedd nawr yn cael llonydd.

**6. Adroddiadau gan y Cyngorwyr Sir** - roedd adroddiad wedi ei derbyn gan Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i'w gweld cyn y cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei adroddiad.

**7. Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - nid oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal yn ystod y mis.

**8. Materion Pentrefi - Talysarn** - nid oedd dim yn codi'r mis hwn. **Penygroes** - angen gofyn i Gyngor Gwynedd symud bin ysbwriel sydd wedi ei leoli tu allan i 12 Stryd Fawr gan ei fod ar dir yr eiddo. Hefyd mae un o hen oleuadau Nadolig Penygroes dal wedi ei adael ar yr adeilad ac angen ei dynnu lawr - angen gofyn i'r contractwyr sydd yn dod i osod y golau Nadolig i dynnu hwn lawr bryd hynny os yn bosib. Twll yn y ffordd o flaen safle Wynnstay ac yn beryglus. Chwyn yn tyfu ar y stryd ac angen ei waredu. **Llanllyfni** - hen safle'r Cwari yn flêr ac angen sylw - mieri yn dod drosodd o'r safle i'r palmant - dywedodd Cyng. Peter Thomas y buasai yn cysylltu gyda rhywun am hyn. Tyllau yn y ffordd tu allan i Fron Deg ac yn beryglus yn enwedig pan mae rhywun yn dod are u traws gyda beic - bu bron i ddamwain ddigwydd yno yn ddiweddar gyda rhywun ar feic. **Nebo** - Allt Pant Y Gog wedi cael llawer o ddefnydd ers iddynt wneud gwaith arni tro diwethaf ac angen sylw brys unwaith eto. Nodwyd bod Ysgol Nebo yn dathlu pen-blwydd yn 150 ar 28ain Hydref a bydd dathliadau yn mynd ymlaen a bod gwahoddiad i aelodau'r Gyngor Cymuned os oeddynt yn dymuno mynychu. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau pwrpasol am y materion hyn.

**9. Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi cael copi o'r gyllideb cyn y cyfarfod i edrych drosto ac aeth Gareth drwy'r gyllideb. Materion a oedd yn codi o'r gyllideb oedd efallai y buasai yn syniad newid y pennawd "Parc BMX" i "Ystafelloedd Newid". Holwyd pe bai modd cael goleuadau nadolig yn y pentrefi nad oes gan rai - yn anffodus nid yw'r polion sydd yn Nhalysarn a Nantlle yn rai a fuasai yn medru cymryd y golau felly cynnigwyd efallai cysidro i roi golau ar adeilad yn y pentrefi er enghraifft y Ganolfan yn Nhalysarn. Trafodwyd i gynnal is-bwyllgor cyllid yn fuan a phenderfynwyd ei gynnal ar 26ain Medi am 6.00 o'r gloch.

**10. Llwybrau a Mynwentydd** - Llwybr o Ros Dulyn i Bant Y Gog ac ymlaen i Nasareth - mae'r llwybr hwn yn dod o dan category 1 sydd yn golygu ei fod i'w dorri 2 waith y flwyddyn ond nid yw i weld fel ei fod wedi ei dorri ers amser hir iawn ac mae wal wedi disgyn ar ran ohono. Angen cysylltu gyda'r contractwyr am hyn. Torri ochr y ffordd yn y darn newydd Mynwent Macpela - roedd pris wedi ei dderbyn gan y contractwyr torri gwair am y gwaith hwn - trafodwyd, cynnigwyd ac eilwyd i dderbyn y pris a gofyn iddynt gario allan y gwaith.

**11. Ceisiadau Cynllunio** – nid oedd dim gwrthwynebiad wedi ei ddangos i'r ceisiadau isod a oedd wedi dod i law.

- C23/0606/22/YA - Fferm Glaslyn, Tŷ Mawr West, Talysarn - Trac amaethyddol
- C23/0535/22/LL – Penrhiw, Penygroes – Cais ôl-weithredol dymchwel tŷ ac adeiladu tŷ yn ei le.
- C23/0567/22/RA - Cofnod Stryd Ystâd Ddiwydiannol Penygroes - cais rhyddhau amod 7 (manyllion carffosiaeth) ar ganiatâd rhif C22/0171/22/LL
- C23/0595/22/DT - Tir i'r cefn o 59 Stryd Fawr, Penygroes - Adeiladu sied ddur wedi ei gorchuddio a chladin proffil a gosod paneli haul cysylltiol i'r to
- C23/0647/22/DT – 1 Fron Dirion, Nebo – Estyniad deulawr at ochr yr adeilad
- C23/0659/22/RA - Lock up Self Storage, Penygroes - Cais rhyddhau amod 2 (gorffeniad allanol) ar ganiatâd C22/0570/22/LL
- NP3/22/12D - Tal Y Mignedd Uchaf, Nantlle - Apêl yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio i drosi a newid defnydd adeilad allanol gwledig yn uned gwyliau hunan arlwygo tymor byr.

**12. Holiadur Cymunedau Gwynedd** - roedd holiadur byr wedi ei dderbyn a aethpwyd drwy'r cwestiynau yn ystod y drafodaeth er mwyn ei yrru ymlaen yn syth.

**13. Ymgynghoriad Parcio Stryd Fawr Penygroes** – wedi gwneud ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn ond nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw gofnod ohono.

**14. Perchnogaeth Cofeb R Williams Parry** - nid oes neb i weld yn berchen ar y gofeb hon felly mae'n agored i unrhyw grŵp cymunedol i gymryd y berchnogaeth os ydynt yn dymuno.

**15. Gohebiaeth** –

- Arwydd plant yn chwarae - trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i yrru'r manylion ymlaen i Grŵp Cynefin a gofyn a oes modd iddynt edrych fewn i hyn a nodi bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi unrhyw fesur i ddiogelu plant yr ardal.
- Un Llais - Digwyddiad rhwng UnLlais a SLCC - 8fed Tachwedd - y clerc wedi gofyn a fuasai yn iawn iddi fynychu'r digwyddiad hwn - y gost fydd £72. Cynnigwyd ac eilwyd i dderbyn y cais hwn.
- Un Llais – Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 24/25 Archwilio Cymru
- Hedgehog Highway Project – trafodwyd yr ohebiaeth yma a cynnigwyd i roi cyfraniad o £150 yn uniongyrchol i'r ganolfan leol. Cytunodd pawb gyda hyn.

**16. Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r rhain.

- Designer Signs – Arwydd A4 Mynwent Gorffwysfa = £244.80
- Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol = £336.00
- Designer Signs – Atgyweirio safleoedd bysiau = £3016.08
- G. W Vermin - gwaredu cwningod yng Ngorffwysfa = £312.00
- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd = £25.00

**17. Unrhyw fater arall** - Robin Williams Taldrwst yn mynychu'r cyfarfod mis nesaf a gofynnwyd a ddylid gwadd y cyhoedd? Y teimlad oedd bod cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac yn agored i unrhyw un fynychu ond nid i wahodd neb. Cytunwyd gyda hyn.

Angen gwahodd PCSO i gyfarfod mis Tachwedd am sgwrs. Y clerc i gysylltu gyda nhw.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd y cyfarfod nesaf yw gynnal nos Fawrth, 10fed Hydref 2023 am 7.00yh.